**COFNODION Y CYFARFOD**

**Dyddiad:** 27 Tachwedd 2001
**Amser:** 9am
**Lleoliad:** Ystafell A3.13

**Yn bresennol:**

John Marek, y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Andrew Davies, y Trefnydd
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
Jonathan Morgan, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr
Peter Black, y Democratiaid Rhyddfrydol

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol
Swyddfa'r Llywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau
(eitem 6 ar yr agenda)
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, YP/Y Trefnydd
Adrian Green, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, YP/Y Dirprwy Lywydd
Alan Jenkins, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol
(eitem 4 ar yr agenda)

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Dim.

## 2. Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol

### (i) 6 Tachwedd 2001 - BC318-01 (Terfynol)

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf derfynol. Am nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu'n barod i'w cyhoeddi.
**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

### (ii) 13 Tachwedd 2001 - BC326-01 (Terfynol)

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf derfynol. Am nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu'n barod i'w cyhoeddi.
**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

### (iii) 20 Tachwedd 2001 - BC339-01 (Drafft)

Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar ffurf ddrafft. Awgrymwyd rhai mân-ddiwygiadau a fyddai'n cael eu hymgorffori i'r fersiwn derfynol a'u cyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf.
**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## 3.  Materion sy’n codi (20 Tachwedd 2001- BC339-01)

3.1 **Paragraff 1.1** Dywedodd y Dirprwy Lywydd ei fod wedi ysgrifennu at William Graham yn diolch iddo am ei gyfraniad i waith y Pwyllgor.

3.2 **Paragraff 4.2** Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod y canllawiau diwygiedig ar arfarniadau rheoliadol a baratowyd gan Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol wedi’u dosbarthu i Reolwyr Busnes.

3.3 **Paragraff 5.2** Cytunwyd i ystyried yr opsiwn mwyaf poblogaidd o ran trefniadau toriadau 2002 dan eitem 5.

3.4 **Paragraff 5.5** Dywedodd Andrew George ei fod wedi paratoi cynnig i’w gwneud yn bosibl i gwestiynau llafar, i’w hateb ar 8, 10 a 15 Ionawr, gael eu cyflwyno ddydd Iau 13 Rhagfyr. Byddai’n cysylltu ag Ysgrifenyddiaeth y Cabinet i drefnu amser cyfleus i’r Cyfarfod Llawn ei ystyried.

## 4. Is-ddeddfwriaeth

4.1 Rhoddodd y Pwyllgor Busnes ystyriaeth i bapurau BC341-01 a BC342-01 a oedd yn rhoi cyngor ar y ffordd y dylid ymdrin â’r ddwy eitem ganlynol o is-ddeddfwriaeth ddrafft:

- **Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2002 (BC341-01)**

- **Rheoliadau Addysg (Datganiadau Cyllidebol) (Cymru) 2002 (BC342-01)**

4.2 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i’r argymhellion nad oes angen i’r ddwy eitem hon gael eu cyfeirio i bwyllgor pwnc ac y dylent ddilyn y weithdrefn gyflym.

4.3 Dywedodd y Dirprwy Lywydd nad oedd y ffaith bod datganiad yn y Memorandwm Esboniadol, yn nodi bod awdurdodau lleol yn cefnogi’r rheoliadau drafft, yn golygu, o reidrwydd, nad oedd angen i bwyllgorau pwnc roi ystyriaeth iddynt. Roedd y Trefnydd yn cytuno.

4.4 Dywedodd Jocelyn Davies a Jonathan Morgan mai’r hyn y byddent hwy yn dymuno’i weld oedd cyfeirio’r gorchmynion hyn i bwyllgor pwnc. Dywedodd y Trefnydd ei fod bob amser wedi credu y dylai pwyllgorau pwnc gael mwy o ran ym mhroses is-ddeddfwriaeth y Cynulliad ac roedd yn hapus i gefnogi’r ceisiadau hyn pryd bynnag yr oedd amser yn caniatáu. **Yn dilyn hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd y dylid cyfeirio’r gorchmynion i’r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, ac argymhellodd gyfnod o dair wythnos i’r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i’r Cynulliad.**

## 5. Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau

- Trefniadau Toriadau 2002 (BC306-01)

- Trefniadau Toriadau 2002 – Papur Diwygiedig (BC337-01)

5.1 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r opsiynau o ran toriadau 2002. Dywedodd y Trefnydd fod y rhan fwyaf o'i grwp ef yn ffafrio Opsiwn 1 (BC306-01), a oedd yn golygu dilyn patrwm toriadau tebyg i eleni. Fodd bynnag, yn bersonol, roedd yn teimlo y gallai hyn greu anawsterau cyflwyniadol. Dywedodd Peter Black a Jonathan Morgan fod eu grwpiau hwy hefyd o blaid Opsiwn 1. Dywedodd Jocelyn Davies fod ei phlaid hi'n ffafrio Opsiwn 3 o hyd. Roedd cefnogaeth i doriad o bedair wythnos dros y Nadolig os yn bosibl. Fodd bynnag, gan na allai pawb gytuno, yr opsiwn mwyaf poblogaidd oedd Opsiwn 1, a oedd yn cynnwys 3 wythnos dros y Nadolig.
**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr i wneud y cyhoeddiad.**

## 6. Pwyllgorau

6.1 Dywedodd Marie Knox fod newidiadau'r Blaid Lafur i aelodaeth pwyllgorau yn golygu ei bod wedi gallu addasu'r Amserlen Pwyllgorau, fel na fyddai'n rhaid i gyfarfodydd pwyllgorau pwnc gael eu cynnal brynhawn Iau. Fodd bynnag, byddai slotiau yn parhau ar gyfer cyfarfodydd opsiynol ar y prynhawniau hynny os oedd angen.

6.2 Nododd Marie Knox hefyd fod y Pwyllgor Archwilio wedi penderfynu cynnal sesiwn dystiolaeth yn ei gyfarfod ar 6 Rhagfyr, ond roedd y darpar-dystion yn teimlo nad oedd hyn yn rhoi digon o rybudd iddynt. Felly awgrymodd y Pwyllgor aildrefnu'r cyfarfod ar gyfer 13 Rhagfyr. Nid oedd gan Aelodau'r Pwyllgor Busnes unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig hwn.

## 7. Busnes ar y gweill

### Busnes yr wythnos hon

7.1 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i bapur BC344-01 yn rhoi manylion y busnes y cytunwyd arno ar gyfer y Cynulliad yr wythnos honno.

7.2 Dywedodd y Trefnydd mai'r unig ychwanegiad a gynigiwyd y diwrnod hwnnw oedd datganiad gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson) ar ddarpariaethau'r Mesur Addysg a gyhoeddwyd ar 23 Tachwedd 2001. Byddai pymtheg munud yn cael ei neilltuo ar gyfer hyn. Dywedodd y byddai Adroddiad y Grwp Gorchwyl a Gorffen ar faterion Gweithlu yn cael ei symud i ddydd Iau 29 Tachwedd.

7.3 Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod amseru'r diwrnod hwnnw yn hynod o dynn ac y byddai'r amser a gâi ei neilltuo ar gyfer y datganiad yn dibynnu ar nifer yr Aelodau a oedd am siarad. Dywedodd Jonathan Morgan fod y Mesur Addysg yn ddarn sylweddol o ddeddfwriaeth ac nad oedd pymtheg munud yn realistig. Dywedodd Jocelyn Davies y byddai nifer o Aelodau am siarad ar y

Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig. Addawodd y Trefnydd y byddai'n trafod sylwadau'r Pwyllgor gyda Jane Davidson.

**Datganiad Busnes Drafft**

7.4 Dywedodd y Trefnydd nad oedd ganddo unrhyw newidiadau i'w gwneud i'w Ddatganiad Busnes Drafft.

7.5 Dywedodd y Dirprwy Lywydd ei bod yn annhebygol y byddai adroddiad grwp Adolygu Gweithdrefnau'r Cynulliad ar gael mewn pryd ar gyfer y ddadl a gynigiwyd ar gyfer 8 Ionawr.

7.6 Gofynnodd Jonathan Morgan p'un a oedd unrhyw gynlluniau i wneud datganiad am bortffolio economaidd y Cabinet. Roedd diwedd y flwyddyn yn agosáu ac roedd Prif Weinidog Cymru wedi cyhoeddi'n wreiddiol y byddai'n llenwi'r ddwy swydd fel mesur dros dro. Dywedodd Jocelyn Davies ei bod yn cefnogi'r cais hwn a gofynnodd a fyddai modd rhoi ystyriaeth i'r cais a wnaeth yn y Cyfarfod Llawn, sef cynnal dadl ynghylch is-ddeddfwriaeth ar faterion datganoledig sy'n berthnasol i Gymru ac sy'n cael eu pasio yn San Steffan. Dywedodd y Trefnydd y byddai'n siarad â'i gydweithwyr am y materion hyn.
**Gweithredu: Y Trefnydd**

7.7 Cyngor y Pwyllgor i'r Trefnydd ar ei ddatganiad arfaethedig am drefn busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau'n dechrau ddydd Mawrth 4 Rhagfyr, dydd Mawrth 11 Rhagfyr a dydd Mawrth 8 Ionawr 2002 oedd y dylai fynd rhagddo fel a amlinellwyd.

**8. Materion a gyfeiriwyd o'r Cyfarfod Llawn**

Dim

**9. Diwygio'r Rheolau Sefydlog**

Dim

**10. Dyfarniadau'r Llywydd**

Dim

**11. Unrhyw fater arall**

Dim

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**